**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Angladdau a Phrofedigaeth**
13 Mawrth 2019
Ystafell Gynadledda B

**Cofnodion y Cyfarfod Blynyddol**

**Yn bresennol:**

| | | |
|---|---|---|
| Mark Isherwood AC (Cadeirydd) | Philip Blatchly (NAFD) | David Beamer (Ysgrifennydd) |
| Russell George AC | Kate Edwards (NAFD) | James Tovey (Siarter SAIF) |
| Janette Bourne (Cruse) | Gordon Swan (Golden Charter) | Ahmed Alsisi (White Rose / Derbyn) |
| | Morgan Harris (NAFD) | |

**Eitem 1: Ymddiheuriadau**

| | | |
|---|---|---|
| Darren Millar AC | Paul Davies AC | Terry Tennens (SAIF) |
| Janet Finch-Saunders AC | Neil Hamilton AC | Jon Levett (NAFD) |
| Nigel Lymn Rose (NAFD) | Neil McEvoy AC | Carys Moseley (EBCPCW) |
| Martin Birch (Cyngor Sir Caerdydd) | Helen Mary Jones AC | Jean Letton (BASW) |
| Gemma O'Driscoll (Cyn Lywydd, SAIF) | Kim Bird (About the Funeral) | Tony Curtis (Dreams & Wishes) |
| | Wendy Hobbs (Dreams & Wishes) | Lorraine Barrett (Offeiriad Dyneiddiol) |

**Eitem 2: Cymeradwyo'r Cofnodion**

Ni ddylai Simon Thomas AC fod wedi'i gynnwys yn yr adran Ymddiheuriadau yng nghofnodion y cyfarfod diwethaf. Ar ôl hepgor hwn, cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod diwethaf.

**Eitem 3: Diweddariad**

Roedd y Cadeirydd yn aros am ymateb gan y Prif Grwner ynghylch gwarediadau crwneriaid. Cytunodd yr Ysgrifennydd i fynd ar drywydd ei ymateb. Roedd y materion eraill i'w trafod yn ymddangos ar yr agenda.

**Eitem 4: Newidiadau i Dystysgrifau Marwolaeth**

Trafododd y Grŵp newidiadau arfaethedig i dystysgrifau marwolaeth ar gyfer Cymru a Lloegr, a chyhoeddi ymateb Llywodraeth y DU i'r ymgynghoriad ar dystysgrifau marwolaeth. Y disgwyl oedd bod tystysgrifau marwolaeth yn cael eu cyflwyno ar lefel gofal sylfaenol yng Nghymru yn wirfoddol.

Cytunwyd y dylid ysgrifennu at Vaughan Gething AC i ofyn am ddiweddariad ar sefyllfa Llywodraeth Cymru wrth gyflwyno'r diwygiadau yng Nghymru. Cytunwyd hefyd i ysgrifennu at Dr Alan Fletcher, yr Arholwr Meddygol Cenedlaethol newydd, i'w longyfarch ar ei benodiad, ac i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau o ran yr Arholwr Meddygol yng Nghymru.

**Eitem 5: Y Gronfa Gymdeithasol / Fforddiadwyedd Angladdau**

Cafwyd trafodaeth ar y datblygiadau diweddaraf yn yr Alban ynglŷn â chyflwyno cronfa Cymorth Treuliau Angladdau newydd, i gymryd lle elfen y taliad angladd o'r Gronfa Gymdeithasol.

Cytunwyd i anfon llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn amlinellu cefnogaeth y Grŵp i'r Cymorth Treuliau Angladdau sy'n cael ei gyflwyno yn yr Alban, a'r camau sy'n cael eu cymryd yn yr Alban i wella argaeledd cymorth, a phrosesu hawliadau. Canmolodd Morgan Harris y ffurflen newydd sy'n cael ei datblygu ar gyfer y Cymorth Treuliau Angladdau yn yr Alban a thynnodd sylw at broblemau sydd o ran y ffurflen bresennol a ddefnyddir ar gyfer ceisiadau talu am angladdau o'r Gronfa Gymdeithasol. Dywedodd hefyd y bydd elfen wedi'i chapio y gronfa Cymorth Treuliau Angladdau yn gysylltiedig â chwyddiant yn wahanol i'r drefn bresennol, o ran y talu am angladdau o'r Gronfa Gymdeithasol.

Cytunwyd y dylid ysgrifennu at y Gweinidog â chyfrifoldeb dros y Gronfa Gymdeithasol yn Llywodraeth y DU i amlygu cefnogaeth y Grŵp i gronfa'r Cymorth Treuliau Angladdau, a'r manteision y bydd yn eu cynnig.

**Eitem 6: Astudiaeth ar y Farchnad Angladdau / Ymgynghoriad Trysorlys Ei Mawrhydi ar Gynlluniau Angladdau wedi'u Talu Ymlaen Llaw**

Cafwyd trafodaeth ar yr Astudiaeth ar y Farchnad Angladdau y CMA, a hefyd yr ymgynghoriad ar Gynlluniau Angladdau wedi'u Talu Ymlaen Llaw gan Drysorlys Ei Mawrhydi.

Dywedodd Gordon Swan mai heddiw yw'r dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion i'r ymgynghoriad, wedi i'r CMA glywed sylwadau y dylid ymestyn cwmpas ei ymchwiliad arfaethedig i'r farchnad, i gynnwys y gwasanaethau angladd a ddarperir gan drefnwyr angladdau yn y Deyrnas Unedig sy'n deillio o adbrynu cynlluniau angladd a dalwyd ymlaen llaw.

Cytunwyd y dylid ysgrifennu at Drysorlys Ei Mawrhydi i nodi bod y Grŵp yn cefnogi rheoleiddio'r sector cynlluniau angladdau wedi'u talu ymlaen llaw er mwyn sicrhau bod pob darparwr yn cael ei gynnwys yn effeithiol a bod eu cleientiaid yn cael eu diogelu rhag methiant darparwr cynllun.

**Eitem 7: Ailddefnyddio rheoliaduron calonnau**

Rhoddodd yr Ysgrifennydd wybodaeth gefndir am yr ansicrwydd sy'n bodoli ynghylch perchnogaeth rheoliaduron calonnau pan maent yn dod o gyrff pobl sydd wedi marw, cyn eu hamlosgi. Nododd y trefnwyr angladdau a oedd yn bresennol eu barn ar opsiynau posibl i geisio cael sicrwydd ynglŷn â pherchnogaeth, er mwyn caniatáu i elusennau ailddefnyddio rheoliaduron calonnau. Roedd hyn yn cynnwys ysgrifennu at fwrdd iechyd lleol i gael cadarnhad ysgrifenedig ynghylch perchnogaeth.

Fel cam cyntaf, cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn anfon llythyr at y Gweinidog Iechyd, Llywodraeth Cymru, yn galw am eglurhad ar sefyllfa Llywodraeth Cymru.

**Eitem 8: Unrhyw fater arall**

Dywedodd Amir Alsisi fod cwmni White Rose yn cefnogi rheoleiddio trefnwyr angladdau yng Nghymru, gan y byddai'n sicrhau bod safonau penodol yn bodoli i drefnwyr angladdau gadw atynt.

Dywedodd Morgan Harris fod Cymdeithas Genedlaethol y Trefnwyr Angladdau (NAFD) wedi adolygu ei God Ymarfer ers cyfarfod diwethaf y Grŵp. Gellir dod o hyd i'r cod wedi'i ddiweddaru ar wefan y Gymdeithas yn [www.nafd.org.uk](http://www.nafd.org.uk)

**Eitem 9: Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Trefnwyd i gynnal y cyfarfod nesaf ar 10 Gorffennaf am 6pm. Cytunwyd ein bod yn gwahodd Natalie McKail, yr Arolygydd Cyfarwyddwyr Angladdau yn yr Alban, i siarad yn y cyfarfod hwn.